# UNED : Y LLO – SYSTEMAU MAGU

## CYFLWYNIAD

Mae nifer o opsiynau ar gael, yn dibynnu ar

- Darddiad y llo
  - Buches odro – wedi ei fagu'n artiffisial gan fwyaf – weithiau wedi ei fagu'n naturiol gan fuwch sy' ddim yn fam iddo
    - Wedi'i fabwysiadu
    - Sugno lluosog
  - Buches Eidion – wedi'i fagu'n naturiol gan ei fam ei hun – gyda neu heb loi eraill
- Systemau magu a ddefnyddir
  - System fagu artiffisial - mae'r lloi'n cael eu magu i ddechrau dan do, fel arfer ar wely gwellt, ac yn cael eu diddyfnu ar ôl cyn lleied â 5 wythnos ar ôl eu geni. Mae'r system yma'n annog lloi i fwyta porthiant sych mor fuan yn eu bywyd â phosib. Yn dibynnu ar amser y flwyddyn y cânt eu geni, byddan nhw fel arfer yn aros dan do rhwng 3 a 12 mis - bydd lloi'n cael eu magu ar gyfer systemau eidion grawnfwyd yn aros dan do o'u geni hyd at eu lladd
    - Unigol – mae'r lloi'n cael eu llocio'n unigol a chânt laeth gosod o fwced nes eu diddyfnu
    - Grŵp – sawl llo wedi eu llocio gyda'i gilydd a'u bwydo ar laeth gosod o gafn cymunedol neu ymborthwr tethi. Neu fe allent gael rhwydd hynt i beiriant awtomatig sy'n cymysgu a dosbarthu'r llaeth.
  - System fagu naturiol - mae'r llo'n cael ei fagu gyda'u fam neu 'laethfam'. Caiff ei fagu dan do neu'r tu allan, yn dibynnu pryd gaiff y llo ei eni a pha system a ddefnyddir. Fel arfer, cânt eu diddyfnu rhwng 6 a 9 mis oed, ond gall lloi sydd wedi sugno gyda'i gilydd eu magu mewn batsys o 2, 3 neu 4 ar fuwch, a'u diddyfnu pan fyddan nhw rhwng 5 a 12 wythnos oed. Yna cânt eu newid gan y bats nesaf, a'r fuwch yn magu sawl bats o loi mewn un cyfnod llaetha.

- Sugno'n unigol – mae llo yn sugno ei fam fiolegol, ac yn gwario'r rhan fwyaf o'i amser y tu allan cyn iddo gael ei ddiddyfnu rhwng 6 a 9 mis oed

- Sugno dwbl/lluosog - ar wahân i'r systemau sugno dwbl, mae'r lloi dan do yn ystod y cyfnod magu ac yn cael mynd at y fam ddwywaith y dydd. Bydd y fuwch dan do mewn rhan arall neu wedi ei throi allan i bori, ac yn dod i mewn amser sugno.

AMCANION

I gynhyrchu llo sy'n :

- Iach
- Wedi ei fwydo'n dda
- Wedi cael safonau lles uchel
- Wedi'i ddigornio, disbaddu, brechu ayyb, yn yr oedran priodol